



St David's
Coleg Catholig Dewi Sant
Catholic Sixth Form College

CYFAMOD Y COLEG

Dylid deall yr oll a wnawn yn Ngholeg Dewi Sant yng nghyd-destun myfyrdod: myfyrio ar pwy ydyn ni fel unigolion; pwy ydyn ni mewn perthynas â'r byd o'n cwmpas; pwy ydyn ni mewn perthynas â'r person wrth ein hymyl. I'r perwyl hwn, rhaid i ni ateb disgwyliadau penodol sydd â'u gwreiddiau'n gadarn yn y Ffydd Gristnogol ond hefyd â goblygiadau ymarferol ar gyfer pob aelod o'r Coleg beth bynnag fo'u ffydd. Mae'r rhestr benodol o ddisgwyliadau ar gyfer myfyrwyr y Coleg yn ffurfio rhan o Gyfamod y Coleg a'i ddiben ydy creu amgylchedd addas er mwyn i bawb gymryd rhan yn y myfyrio.

Mae disgwyl i fyfyrwyr wneud y canlynol:

- Gwisgo'n addas. Ni ddylid gwisgo hetiau yn cynnwys cyflau (hoods) ar y safle ac eithrio'r rhai a wisgir am resymau crefyddol. Dylid gwisgo bathodynau ID y Coleg bob amser a dylen nhw fod yn weladwy bob amser.
- Mynychu'r holl wersi yn brydlon a dangos parch at staff a myfyrwyr eraill.
- Dod i'r dosbarth wedi paratoi'n llawn gyda'r deunyddiau gofynnol ar gyfer y wers honno.
- Peidio â bwyta, cnoi gwm nac yfed (ar wahân i ddŵr), mewn gwersi.
- Peidio â defnyddio ffôn symudol, onibai bod gofyn i chi wneud hynny gan eich athro fel rhan o'r wers.
- Cwblhau'r tasgau gofynnol erbyn y dedleins a osodwyd gan gyflwyno gwaith o safon uchel.
- Hysbysu athrawon pwnc, drwy anfon e-bost os byddwch yn mynd i golli gwercs ac yna dangos blaengaredd drwy ddal i fyny â'r gwaith a gollwyd, cyn y wers nesaf.
- Ffocysu a gwrando'n astud mewn gwersi, gan wneud nodiadau ychwanegol fel bo angen.
- Cyfranogi'n bositif mewn gwersi a thrafodaethau dosbarth.
- Adolygu gwaith dosbarth adref, gyda'r nos ac mewn gwersi rhydd yn ystod y dydd.
- Darllen ac adolygu yn ehangach er mwyn datblygu'ch gwybodaeth a'ch dealltwriaeth.
- Dysgu'r termau a'r cysyniadau allweddol sy'n bwysig ar gyfer pob cwrs.
- Paratoi'n ddigonol ar gyfer profion a, lle bo'n berthnasol, ar gyfer asesiadau wedi'u hamseru.
- Cynnal ffeil astudio pwnc drefnus a chyfredol.
- Ceisio cymorth ychwanegol gan athrawon pwnc, tiwtoriaid personol a thiwtoriaid cymorth dysgu, yn ôl yr angen.